This document is available in English. / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

# POLISI CAMYMDDYGIAD A THRAIS RHYWIOL 2026/27

| **Teitl:** Polisi Camymddygiad a Thrais Rhywiol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad cyhoeddi** | **Disgrifiad o'r Diwygiad** | **Awdur** | **Cymeradwywyd Gan a Dyddiad** | **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf** |
| 1.0 | Medi 2024 | Cyhoeddiad Cyntaf | Siobhan Coakley | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd | Mehefin 2025 |
| 2.0 | Medi 2025 | Ail Gyhoeddiad | Louise Neate/Niamh Križan | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd 25 Mehefin 2025 | Mehefin 2026 |
| 3.0 | Medi 2026 | Tryddydd Gyhoeddiad | Louise Neate/Niamh Križan | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd 24 Mehefin 2026 | Mehefin 2027 |

This document is available in Welsh. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

# Cynnwys

Datganiad o fwriadau ........ 2
Nodau ........ 2
Diffiniadau ........ 2
Cyfrinachedd ........ 3
Datgelu a chymorth i Fyfyrwyr sy'n Adrodd ac yn Ymateb ........ 3
Adrodd ........ 4
Cyngor a chymorth i staff ........ 5
Y broses ymchwilio ........ 5
Pwyllgorau Disgyblu ........ 6
Canllawiau ar gyfer cymhwyso sancsiynau ........ 7

This document is available in Welsh. Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

# POLISI CAMYMDDYGIAD A THRAIS RHYWIOL

**Datganiad o fwriadau**

1. Mae'r Polisi Camymddygiad a Thrais Rhywiol yn ymwneud â phob digwyddiad o gamymddygiad a thrais rhywiol, cam-drin domestig ac ymddygiad gorfodol neu reoli.

2. Dylid darllen y Polisi ar y cyd â’r Cod Ymddygiad Myfyrwyr a’r Rheoliadau Camymddygiad Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer a Gweithdrefnau cysylltiedig.

3. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i greu amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle gall ein myfyrwyr, cydweithwyr a phartneriaid gydweithio, arloesi a ffynnu. Nid yw unrhyw fath o gamymddygiad neu aflonyddu rhywiol yn dderbyniol.

4. Rydym yn cydnabod y niwed a’r effaith y mae camymddygiad a thrais rhywiol yn ei achosi, a’r effaith y gallai hyn ei chael ar astudiaethau myfyriwr yn y Brifysgol.

5. Ni fydd y Brifysgol yn goddef digwyddiadau o'r natur hon, a bydd unrhyw adroddiad yn cael sylw teg a thrylwyr drwy'r Polisi hwn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig.

**Nodau**

6. Nodau’r Polisi hwn a’r Gweithdrefnau a Chanllawiau cysylltiedig yw:

- Sicrhau bod yr holl fyfyrwyr a staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chamymddygiad rhywiol.
- Darparu dull teg, tryloyw a chyson ar gyfer adrodd, ymchwilio ac ymateb i honiadau o gamymddygiad rhywiol.
- Sicrhau bod gwybodaeth am ffynonellau cymorth ar gael i unrhyw un sy’n profi neu’n cael ei gyhuddo o gamymddygiad rhywiol.

**Diffiniadau**

7. Mae camymddygiad a thrais rhywiol yn cwmpasu amrywiaeth o ymddygiadau annerbyniol o natur rywiol a gallant ddigwydd ar-lein yn ogystal ag wyneb yn wyneb. Fel y nodir yn y Cod Ymddygiad Myfyrwyr, gall gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Gymryd rhan, neu geisio cymryd rhan mewn cyfathrach rywiol neu weithred rywiol heb gydsyniad
- Gweinyddu sylwedd er mwyn cymryd rhan mewn cyfathrach rywiol neu weithred rywiol heb gydsyniad
- Tagu nad yw'n angheuol ar gyfer boddhad rhywiol
- Tynnu lluniau personol/anweddus o unigolyn arall heb eu cydsyniad, er enghraifft lluniau i fyny sgert
- Rhannu, neu fygwth rhannu, deunyddiau rhywiol preifat unigolyn arall heb gydsyniad a/neu olygu delweddau i’w gwneud yn rhywiol gignoeth
- Voyeuriaeth

- Datguddio eich hun yn amhriodol neu anfon, rhannu, dangos neu arddangos organau rhywiol, delweddau sylweddol personol neu gynnwys rhywiol eglur i berson arall, gan gynnwys ymddygiad a gydnabyddir fel "seiberfflacio"
- Dilyn unigolyn arall dro ar ôl tro, mewn ffordd a allai wneud iddynt deimlo'n anghyfforddus
- Gwneud sylwadau digroeso o natur rywiol
- Gorfodaeth neu fwlio ag elfennau rhywiol
- Troseddau rhyw plant, gan gynnwys meithrin perthynas amhriodol
- Masnachu mewn pobl ar gyfer camfanteisio rhywiol
- Gwahoddiadau a/neu ofynion rhywiol

Mae cam-drin domestig ac ymddygiad gorfodol neu reoli yn cynnwys digwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli, gorfodi, ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin rhwng y rhai sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu waeth beth fo'u rhywioldeb neu ryw. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol a/neu emosiynol. Nid oes gwahaniaeth a yw'r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu ddilyniant o ymddygiad.

**Cyfrinachedd**

8. Cedwir cyfrinachedd, lle bo modd, wrth gymhwyso'r Polisi hwn, gan nodi:

   - Bydd staff perthnasol yn cael gwybodaeth sy'n angenrheidiol ac yn gymesur â'u rôl a'u cyfranogiad.
   - Mae'n bosibl y bydd angen rhannu gwybodaeth o natur sensitif gyda'r rhai sy'n ymwneud â'r achos.
   - Lle mae myfyriwr ar raglen sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol, efallai y bydd rhwymedigaethau datgelu ar y Brifysgol i'r corff allanol.
   - Mae'n bosibl y bydd angen i'r Brifysgol rannu gwybodaeth y tu allan i'r sefydliad os yw hyn yn angenrheidiol i ddiogelu'r partïon dan sylw, neu eraill, rhag niwed neu i atal trosedd rhag digwydd.

9. Rhaid i bob parti gadw gwybodaeth a ddatgelir iddynt fel rhan o'r broses yn gyfrinachol. Bydd unrhyw ddatgeliad anawdurdodedig o wybodaeth gyfrinachol, gan gynnwys recordio, copïo neu ddosbarthu recordiadau fideo/sain a gwaith papur sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau a gwrandawiadau, yn cael ei ystyried yn drosedd ddisgyblu ac yn cael sylw priodol. Bydd y Brifysgol yn gweithredu yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

**Datgelu a chymorth i Fyfyrwyr sy'n Adrodd ac yn Ymateb**

10. Gall myfyriwr ddatgelu profiad o gamymddygiad rhywiol drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys drwy'r system Adrodd a Chymorth, i'r Gwasanaethau Llesiant, i'r Tîm Ymateb i Ddatgeliadau neu i unrhyw aelod o staff y Brifysgol.

11. Yn dilyn datgeliad, fel arfer bydd Panel Asesu Risg yn cael ei gynnull o dan y Weithdrefn Asesu Risg.

This document is available in Welsh. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

12. Bydd y Brifysgol yn ceisio lleihau'r nifer o weithiau y mae'n rhaid i'r Parti sy'n Adrodd ddatgelu digwyddiad o Gamymddygiad a Thrais Rhywiol.

13. Bydd aelod o'r Tîm Ymateb i Ddatgeliadau yn cael ei neilltuo i ddarparu cymorth, cyngor ac arweiniad cyfrinachol i'r Parti sy'n Adrodd. Mae'r tîm yn gweithredu gan ddefnyddio dulliau wedi'u llywio gan drawma. Mae hyn yn golygu adnabod arwyddion trawma, deall sut, beth, ble a phryd i ofyn cwestiynau a defnyddio technegau a strategaethau sy'n lleihau'r posibilrwydd o ail drawma. Byddant hefyd yn gallu helpu i hwyluso atgyfeiriad at sefydliad allanol, sy'n darparu cymorth arbenigol i'r rhai yr effeithir arnynt gan gamymddygiad rhywiol.

14. Bydd unigolyn cymorth yn cael ei neilltuo i ddarparu cymorth, cyngor ac arweiniad cyfrinachol i'r Myfyriwr sy'n Ymateb.

15. Gall y Parti sy'n Adrodd a'r Myfyriwr sy'n Ymateb gyflwyno cais ar gyfer amgylchiadau esgusodol, os ydynt yn ystyried bod yr achos wedi effeithio ar eu perfformiad academaidd. Nid oes angen iddynt ddarparu manylion o dan ba amgylchiadau y maent yn gwneud hynny; bydd Gwaith Achos Myfyrwyr yn darparu llythyr cyffredinol i gefnogi'r cais.

**Adrodd**

16. Yn dilyn datgeliad, bydd y Parti sy'n Adrodd yn cael gwybodaeth a chymorth i'w helpu i ystyried ei opsiynau, gan gydnabod y gallai fod angen amser arno i feddwl am y peth cyn gwneud penderfyniad. Mae'n gallu:

- gwneud adroddiad i'r heddlu;
- gwneud adroddiad i'r Brifysgol o dan y Polisi hwn;
- peidio â rhoi adroddiad am y digwyddiad; a/neu
- dderbyn cyngor ar y cymorth sydd ar gael iddo, yn y Brifysgol ac mewn gwasanaethau arbenigol.

17. Gellir cyfeirio'r Parti sy'n Adrodd at Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, os yw'n briodol. Bydd hyn yn galluogi'r Parti sy'n Adrodd i wneud adroddiad dienw a chael tystiolaeth wedi'i storio tra bydd yn dewis pa opsiwn y bydd am ei gymryd.

18. Bydd dymuniadau'r Parti sy'n Adrodd yn cael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cyflwyno adroddiad i'r heddlu. Fodd bynnag, <u>gallai</u> adroddiad gael ei wneud gan y Brifysgol yn groes i ddymuniadau'r Parti sy'n Adrodd os oes angen datgelu'r wybodaeth i ddiogelu'r Parti sy'n Adrodd, neu eraill, rhag niwed neu i atal trosedd arall rhag digwydd. Bydd y Brifysgol yn sicrhau yr ymdrinnir â'r mater yn sensitif a bod yr holl unigolion yr effeithir arnynt yn cael eu cefnogi'n briodol.

19. Er gall y Brifysgol wneud adroddiad, nid yw'r Parti sy'n Adrodd o dan unrhyw rwymedigaeth i ymgysylltu ag ymchwiliad heddlu.

20. Y Panel Asesu Risg fydd yn penderfynu a ddylid adrodd i'r heddlu, a'r Cadeirydd fydd â'r awdurdod cyffredinol i wneud y penderfyniad. Rhaid i Gwnsler Cyffredinol ac Arweinydd Diogelu'r Brifysgol fod yn rhan o'r Panel pan fydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud. Bydd y Panel Asesu Risg yn penderfynu pwy fydd yn gwneud yr adroddiad gwirioneddol i'r heddlu a bydd y rhesymeg dros hyn yn cael ei chofnodi.

21. Os bydd y Parti sy'n Adrodd yn penderfynu peidio â chynnwys yr heddlu, bydd yna'r opsiwn o hyd i ofyn i'r mater gael ei ystyried o dan y Polisi hwn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr achos yn cael ei drin fel achos posibl o dorri'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr ac nid fel trosedd. Cynhelir cyfarfod adolygu achos cychwynnol cyn i unrhyw gamau ffurfiol gael eu cymryd, gan gynnwys cynnull Panel Asesu Risg.

22. Gall y Brifysgol o'i gwirfodd hefyd benderfynu defnyddio'r Polisi hwn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig.

23. Lle bo Parti sy'n Adrodd wedi cyflwyno adroddiad drwy Adrodd a Chymorth, bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i gychwyn ymchwiliad o dan y Weithdrefn hon. Fel arall, gall y Parti sy'n Adrodd lenwi ffurflen Honiad o Gamymddygiad neu gyflwyno datganiad ysgrifenedig. Ni ellir ymchwilio i ddigwyddiad yr adroddir amdano os yw'r Parti sy'n Adrodd yn dymuno aros yn ddienw neu os nad yw'n dymuno i fanylion yr honiad gael eu gwneud yn hysbys i'r Myfyriwr sy'n Ymateb. Bydd adroddiadau dienw fel arfer yn cael eu defnyddio ar gyfer dadansoddi tueddiadau yn unig.

**Cyngor a chymorth i staff**

24. Rhaid i staff sy'n cael datgeliad am ddigwyddiad o gamymddygiad/trais rhywiol gyflwyno adroddiad ar unwaith drwy'r system Adrodd a Chymorth.

25. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i staff sy'n adrodd am gamymddygiad rhywiol, neu sy'n dyst iddo, ymgysylltu â'r broses ymchwilio ac unrhyw gais dilynol i fynychu gwrandawiad.

26. Cydnabyddir y gall bod yn dyst i gamymddygiad rhywiol ac ymwneud ag unrhyw broses ddilynol beri gofid. Mae'r Brifysgol yn rhedeg Cynllun Cymorth Staff, a cheir manylion amdano ar wefan Adnoddau Dynol. Yn ogystal, mae gan y Gaplaniaeth brofiad helaeth o ymdrin â materion sensitif ac mae ar gael i gynnig cyngor a chymorth cyfrinachol ffurfiol ac anffurfiol.

**Y broses ymchwilio**

27. Bydd y broses ymchwilio fel yr amlinellir yn y [Weithdrefn ar gyfer Cam 2: Ymchwiliadau i Gamymddygiad Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer].

28. Mewn achosion sy'n ymwneud â honiadau o gamymddygiad rhywiol, bydd y Swyddog Ymchwilio fel arfer yn un o Swyddogion Ymchwilio Proffesiynol y Brifysgol. Mewn rhai amgylchiadau, gall y Brifysgol benderfynu cyflogi ymchwilydd arbenigol o'r tu allan i'r Brifysgol.

29. Bydd y Parti sy'n Adrodd yn cael y dewis o gael ei gyfweliad wedi'i recordio wedi'i chwarae yn y gwrandawiad, pe bai'r achos yn symud ymlaen i'r cam hwn.

30. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn penderfynu a oes angen iddo gyfweld ag unrhyw dystion a nodir naill ai gan y Parti sy'n Adrodd neu'r Myfyriwr sy'n Ymateb. Er mwyn gwneud hynny, bydd yn rhaid iddo ddatgelu manylion yr achos dan sylw i'r tyst. Bydd yn ofynnol i'r partïon dan sylw gadw cyfrinachedd.

31. Bydd y Brifysgol yn rhannu gyda'r Parti sy'n Adrodd dystiolaeth berthnasol a gasglwyd yn ystod ymchwiliad i alluogi'r Parti sy'n Adrodd i ymateb i'r dystiolaeth honno cyn i'r Swyddog Ymchwilio ddod i'w gasgliadau.

32. Bydd y Brifysgol yn rhannu gyda'r Myfyriwr sy'n Ymateb dystiolaeth berthnasol a gasglwyd yn ystod ymchwiliad i alluogi'r Myfyriwr sy'n Ymateb i ymateb i'r dystiolaeth honno cyn i'r Swyddog Ymchwilio ddod i'w gasgliadau.

33. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, cyflwynir adroddiad y Swyddog Ymchwilio i Ddeon y Gyfadran (neu enwebai). Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes achos i'w ateb ac, os felly, a ddylid cyfeirio'r achos at Bwyllgor Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer.

34. Rhoddir copi o adroddiad y Swyddog Ymchwilio i'r Parti sy'n Adrodd ac i'r Myfyriwr sy'n Ymateb. Rhoddir ystyriaeth i ddarparu'r canlyniad drwy'r Gwasanaethau Myfyrwyr, os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol a/neu'n briodol.

**Pwyllgorau Disgyblu**

35. Bydd Pwyllgorau Disgyblu yn cael eu cyfansoddi a'u rheoli fel yr amlinellir yn y Weithdrefn ar gyfer Cam 2: Gwrandawiadau Pwyllgor.

Presenoldeb yn y gwrandawiad

36. At ddiben y Polisi hwn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig, a lle bo'n berthnasol, mae'r Parti sy'n Adrodd yn cael ei ddosbarthu fel tyst. Bydd y Parti sy'n Adrodd yn cael ei wahodd i fynychu'r gwrandawiad. Fodd bynnag, nid oes angen iddo fynychu ac o ganlyniad gall wrthod unrhyw wahoddiad o'r fath. Bydd y Brifysgol yn parchu penderfyniad y Parti sy'n Adrodd mewn perthynas â bod yn bresennol yn y gwrandawiad.

37. Pe bai'r Parti sy'n Adrodd yn penderfynu peidio â mynychu'r gwrandawiad, bydd y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir ganddo'n cael ei dosbarthu fel 'achlust'. Mae hwn yn derm cyfreithiol am dystiolaeth nad yw'n cael ei phrofi drwy ofyn cwestiynau wyneb yn wyneb i'r sawl sy'n darparu'r dystiolaeth. Gallai tystiolaeth achlust gynnwys unrhyw dystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw neu dystiolaeth ysgrifenedig.

38. Bydd tystiolaeth achlust yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor i benderfynu a ddylid ei chynnwys fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth. Os caiff ei chynnwys, yna rhaid i'r Pwyllgor benderfynu pa bwys neu bwysigrwydd y dylid ei roi i'r dystiolaeth hon. Mae amgylchiadau a allai arwain at roi llai o bwys ar dystiolaeth y Parti sy'n Adrodd na thystiolaeth bersonol y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cynnwys, er enghraifft, a oes gwahaniaethau pwysig a heb eu profi rhwng y cyfrifon a roddwyd, ac a fu cyfle i'r Myfyriwr sy'n Ymateb herio'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r gwahaniaethau hynny. Mae'n debygol y rhoddir llai o bwys neu bwysigrwydd i dystiolaeth achlust (os yw'n dderbyniol).

39. Gall y Brifysgol ofyn i aelodau o staff ac unrhyw unigolion eraill sy'n berthnasol i'r achos fynychu'r gwrandawiad fel tystion. Bydd y Parti sy'n Adrodd a'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael gwybod am enwau unrhyw dystion cyn y gwrandawiad.

40. Gellir cynnal y gwrandawiad wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau electronig. Pan fydd gwrandawiad yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb, gwneir darpariaeth i'r Parti sy'n Adrodd fod yn bresennol naill ai'n bersonol neu drwy ddulliau electronig, mewn ystafell ar wahân.

Canlyniad

41. Bydd penderfyniad ar y wybodaeth i'w darparu i'r Parti sy'n Adrodd ar ganlyniad a sancsiynau yn cael ei wneud fesul achos, ar y cyd â'r Swyddog Diogelu Data.

**Canllawiau ar gymhwyso sancsiynau mewn perthynas â chamymddygiad rhywiol:**

| **Trosedd disgyblu** | **Enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol** | **Enghreifftiau nad yw'n gyflawn o sancsiynau** | **Cyfrifoldeb am osod sancsiwn** |
|---|---|---|---|
| Camymddygiad Rhywiol | • Cymryd rhan mewn cyfathrach rywiol neu weithred rywiol heb gydsyniad<br>• Ceisio cymryd rhan mewn cyfathrach rywiol neu weithred rywiol heb gydsyniad<br>• Gweinyddu sylwedd er mwyn cymryd rhan mewn cyfathrach rywiol neu weithred rywiol heb gydsyniad<br>• Tagu nad yw'n angheuol ar gyfer boddhad rhywiol<br>• Tynnu lluniau personol/anweddus o unigolyn arall heb eu cydsyniad, er enghraifft lluniau i fyny sgert<br>• Rhannu, neu fygwth rhannu, deunyddiau rhywiol preifat unigolyn arall heb gydsyniad a/neu olygu delweddau i'w gwneud yn rhywiol gignoeth<br>• Voyeuriaeth<br>• Datguddio eich hun yn amhriodol neu anfon, rhannu, dangos neu arddangos organau rhywiol, delweddau sylweddol personol neu gynnwys rhywiol eglur i berson arall, gan gynnwys ymddygiad a gydnabyddir fel "seiberfflacio" | • Diarddel<br>• Ataliad/gwaharddiad<br>• Cyfyngiadau/amodau<br>• Rhybudd ffurfiol<br>• Ymddiheuriad ysgrifenedig | Pwyllgor Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer y Brifysgol<br><br>Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Dilyn unigolyn arall dro ar ôl tro, mewn ffordd a allai eu gwneud yn anghyfforddus<br>• Gwneud sylwadau digroeso o natur rywiol<br>• Gorfodaeth neu fwlio ag elfennau rhywiol<br>• Gwahoddiadau a/neu ofynion rhywiol<br>• Troseddau rhyw plant, gan gynnwys meithrin perthynas amhriodol<br>• Masnachu pobl ar gyfer camfanteisio rhywiol<br>• Gwahoddiadau a/neu ofynion rhywiol | | |
| | • Bygythiadau i rannu sibrydion neu luniau rhywiol<br>• Gwneud sylwadau digroeso o natur rywiol<br>• Gwahoddiadau a/neu ofynion rhywiol | • Rhybudd ffurfiol<br>• Ymddiheuriad ysgrifenedig | Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi |